Busnes Cymru | Business Wales

sesiynau arbenigol
expert sessions

*Cynadleddau Cadwyni Cyflenwi -*
*Supply Chain Summits*

# PECYN ADNODDAU CYNADLEDDAU CADWYNI CYFLENWI

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Busnes Cymru | Business Wales
sesiynau arbenigol expert sessions
Cynadleddau Cadwyni Cyflenwi - Supply Chain Summits

# Rhagymadrodd

**Yn cyflwyno Cynadleddau Cadwyni Cyflenwi Busnes Cymru; pedair sesiwn a fydd yn archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael i BBaCh Cymreig yn cyflenwi'r sector preifat a phrynwyr mawr o'r byd diwydiant.**

**Ym mhob sesiwn rithiol, bydd ein siaradwyr yn rhannu eu gwybodaeth a'u profiad i'ch helpu chi i gael gwell dealltwriaeth am sut y gall eich busnes ddod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru.**

**Beth bynnag yw maint eich busnes, ble bynnag yr ydych chi yng Nghymru, a pha bynnag gynhyrchion neu wasanaethau rydych yn eu darparu, bydd y cynadleddau hyn yn eich helpu chi i ddysgu sut i ddod yn rhan o'r cyfle £6.5b y flwyddyn yma.**

## Adeiladu 1

Yn y sesiwn yma, fe glywch gan ddau o arweinwyr diwydiant adeiladu Cymru sy'n gweithio gyda BBaCh yn rheolaidd trwy Fusnes Cymru a Gwerthwch i Gymru. Bydd yr arbenigwyr yma yn y diwydiant adeiladu'n cynnig darlun o'r galw at y dyfodol a chyfleoedd i gyflenwyr hefyd.

**Bydd ein siaradwyr yn cynnwys;**

- Ian Ress – Rheolwr Ardal Cymru, Grŵp Kier
- Mark Bodger – Cyfarwyddwr Cysylltu, CITB Cymru
- Jake Burley – Cyfarwyddwr, Swansea Professional Painters Ltd

**Gwyliwch y sesiwn**

## GIG

Yn y sesiwn yma, bydd ein siaradwyr yn rhoi golwg bersonol unigryw ar brosesau caffael y GIG er mwyn cynorthwyo darpar-gyflenwyr i adnabod cyfleoedd lle gallant ymgeisio am waith yn rhan o gadwyn gyflenwi'r GIG, a'i ennill hefyd o bosibl.

**Bydd ein siaradwyr yn cynnwys;**

- Huw Thomas – Cyfarwyddwr Cyllid, BIP Hywel Dda
- Rob Type – Dirprwy Bennaeth Caffael, Partneriaeth Gwasanaethau Aneurin Bevan
- Chris Bishop – Cyfarwyddwr, WR Bishop

**Gwyliwch y sesiwn**

## Cyffredinol

Yn y sesiwn yma, byddwn ni'n siarad â phrynwyr arbenigol, a'r ffocws penodol fydd dysgu o'u gwybodaeth fewnol am y broses gaffael, gan gynnig awgrymiadau a chynigion am sut y gallai'ch busnes ddod o hyd i gyfleoedd newydd, ac ennill contractau gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

**Bydd ein siaradwyr yn cynnwys;**

- Stephen Pickard – Uwch Arweinydd Caffael, Trawsnewid a Pholisi Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Nick Abbott – Rheolwr Caffael a Gwerth am Arian, Linc-Cymru
- Chris Bishop – Cyfarwyddwr, WR Bishop

**Gwyliwch y sesiwn**

## Adeiladu 2

Yn y sesiwn yma, fe glywch gan ddau o arweinwyr diwydiant adeiladu Cymru sy'n gweithio gyda BBaCh yn rheolaidd trwy Fusnes Cymru a Gwerthwch i Gymru. Bydd yr arbenigwyr yma yn y diwydiant adeiladu'n cynnig darlun o'r galw at y dyfodol a chyfleoedd i gyflenwyr hefyd.

**Bydd ein siaradwyr yn cynnwys;**

- Catherine Griffith-Williams – Prif Weithredwr, Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru
- Stephen Tomkins – Rheolwr Gyfarwyddwr, Alun Griffiths Cyf
- Jake Burley – Perchennog, Swansea Professional Painters and Decorators

**Gwyliwch y sesiwn**

# Cynnwys


**Arweinyddiaeth Meddwl - Howard Jacobson** 4
Discussing how the public sector is intent on expanding its local supply chain

**Astudiaeth achos – Swansea Professional Painters** 8
Contractau'r sector cyhoeddus yn dod â lliw llwyddiant i gwmni peintio o Abertawe

**Astudiaeth achos – WR Bishop** 10
Cadwyn cyflenwi'r sector preifat yn dwyn ffrwyth i fusnes teuluol Cymreig

**Gwybodeath ychwanegol** 12
Pwyntiau allweddol pellach a chrynodeb gyda dolenni a darllen pellach













# Arweinyddiaeth Meddwl
# Howard Jacobson

## Pam fod ar y sector gyhoeddus eich angen CHI.

**Dyma Howard Jacobson, Rheolwr Cysylltu Cadwyni Cyflenwi Busnes Cymru, yn trafod sut mae'r sector gyhoeddus yn bwriadu ehangu ei gadwyn gyflenwi leol, a sut y gall busnesau llai ar draws Cymru ennill eu tamaid nhw o'r gwaith.**

Os ydych chi'n darllen hyn, yna mae'n debyg fod gennych ddiddordeb ym mhrosesau cadwyni cyflenwi a chaffael y sector gyhoeddus yng Nghymru.

Efallai'ch bod chi'n credu taw busnesau mawr yn unig yw contractwr y sector gyhoeddus, bod contractau'n mynd i'r un hen bobl bob tro, neu hyd yn oed bod y mwyafrif ohonynt yn mynd i gwmnïau y tu hwnt i Gymru. Efallai nad ydych chi'n gwybod sut i ddod o hyd i'r cyfleoedd hyn, neu ble i droi am gymorth wrth ymgeisio am gontractau. Hwyrach eich bod chi wedi bod yn aflwyddiannus gyda chais ac nad ydych chi'n gwybod pam.

Neu gallai'ch barn fod yn un niwtral. Efallai taw ychydig iawn o brofiad sydd gennych yn hyn o beth a'ch bod chi yma i ddysgu rhagor, heb unrhyw ddisgwyliadau.

Efallai bod eich profiad yn un cadarnhaol. Efallai'ch bod chi'n BBaCh bach Cymreig, neu hyd yn oed yn fusnes newydd sydd wedi ennill contract sylweddol gyda'r sector gyhoeddus yn ddiweddar a'ch bod chi'n tyfu eich busnes ar sail contractau'r sector gyhoeddus. Rwy'n gwybod bod y busnesau yma'n bodoli, oherwydd rwy'n siarad â nhw'n ddyddiol. Dyma'r fath o waith sy'n gwneud ein gwaith ni yma yn Busnes Cymru'n hynod o werth chweil.

### Y dirwedd gaffael yng Nghymru

Yn gyntaf, gadewch i mi ddelio â'r rhai sydd â safbwynt negyddol am brosesau caffael y sector gyhoeddus yng Nghymru neu ar draws y DU.

Mae gan lawer ohonoch safbwyntiau dilys dros ben ac rydyn ni wedi bod yn gweithio i wneud y newidiadau sydd eu hangen ar y system.



Rydw i wedi siarad â llawer ohonoch mewn amryw o ddigwyddiadau, wyneb yn wyneb ac ar lein, ar draws Cymru mewn blynyddoedd diweddar, ac wedi gwrando ar eich safbwyntiau a'ch pryderon am sut mae prosesau caffael y sector gyhoeddus yn gweithio a sut y gallent weithio'n well mewn llawer o achosion.

Cymerwyd yr holl safbwyntiau a syniadau hyn o ddifri, a'r rhain sydd wedi gosod y sylfaen ar gyfer ffordd newydd o gysylltu busnesau Cymreig, a strwythur ein digwyddiadau caffael rheolaidd.

Fe gyflwynon ni strategaeth newydd sy'n seiliedig ar gyfarfodydd cyflym â gwell ffocws, fesul un rhwng prynwyr a darpar-gyflenwyr, gan ddefnyddio fformat sy'n debyg i sesiwn gwib-ddetio. Rydyn ni'n targedu pwy sy'n cael eu gwahodd yn well hefyd. Byddai'r rhai a fyddai'n cael eu gwahodd i achlysur â ffocws ar adeiladu (er enghraifft) yn weddol eang yn y gorffennol, ond mae ein dull newydd o weithredu'n fwy pwrpasol o lawer, wrth i ni wahodd arbenigwyr o sectorau penodol fel toi/arwyddion/teilio/addurno yn unig yn dibynnu ar y gofynion.

Mae'r dull yma o weithredu wedi atal lawer o'r feirniadaeth fod pobl yn aml wedi teithio pellter sylweddol, a'u bod nhw'n teimlo weithiau ei bod hi wedi bod yn wastraff amser.

Rhoesom ni'r dull newydd yma ar waith am y tro cyntaf gyda dau achlysur hynod lwyddiannus yn Abertawe a Bangor cyn y pandemig, ac fe barhaon i'w cyflwyno'n ffisegol nes i Covid daro.

Fel pawb arall, bu angen i ni addasu trwy fynd â'r broses ar lein, ac fe barhaodd y peth i weithio'n hynod o dda. A dweud y gwir, fe weithiodd yn well byth. Nawr, yn hytrach na gorfod teithio i ddigwyddiadau, câi'r gwesteion wahoddiad i 'eistedd' yn rhithiol o flaen y prynwr, a 15 munud i drafod y cyfleoedd sydd ar gael i fod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi ac i gyflwyno'u cais yn unol â hynny.

Mae hyn yn arbed amser i bawb, ac wrth gwrs mae'n arbed llwyth o garbon i'r busnesau. Gallwn weld hefyd bod lefelau boddhad y cyflenwyr yn uchel dros ben, a'u bod yn ennill busnes o ganlyniad i'r model newydd.

## Visibility

Ond y broblem fawr gyda hyn i gyd yw taw dim ond y bobl sy'n weladwy i ni y gallwn eu gwahodd i'n digwyddiadau caffael - mewn geiriau eraill, rhaid iddynt fod wedi cofrestru gyda **GwerthwchIGymru**, porth Llywodraeth Cymru sy'n cysylltu BBaCh â chontractau'r sector gyhoeddus.

Os nad yw cwmni wedi cofrestru, yna ni fydd y rhai sy'n gyfrifol am reoli contractau'r sector gyhoeddus yn gwybod eu bod nhw'n bodoli, ac ni fyddan nhw'n derbyn hysbysiadau tendro. Ac (o ystyried bod gwerth dros £6.5bn o gontractau ar gael trwy GwerthwchIGymru bob blwyddyn) mae hynny'n yn dipyn o gam gwag i fusnesau Cymreig am nad ydynt yn rhoi'r cyfle iddyn nhw eu hunain ymgeisio am waith hyd yn oed.

Mewn ymdrech i ddatrys hyn, rydyn ni wedi bod yn gwneud llawer o waith rhagweithiol yn ddiweddar er mwyn mapio cadwyni cyflenwi Cymru ac annog y rhai nad ydynt wedi cofrestru gyda Gwerthwch i Gymru i gofrestru ar unwaith ac i ddechrau tendro am waith a'i ennill.

Mae mapio'r busnesau Cymreig perthnasol sy'n gweithredu mewn miloedd o wahanol sectorau, a dechrau estyn allan atynt er mwyn esbonio'r cyfleoedd sydd ar gael trwy feysydd caffael y sector gyhoeddus a sut i chwarae rhan wedi bod yn dasg a hanner. Er ein bod ni ar gyfnod cynnar o hyd, rwy'n gwybod y bydd pob awr a phob punt sy'n mynd ar y prosiect yma'n hollol werth chweil.

## Wrth ei flas mae profi'r pwdin

Fodd bynnag, rwy'n gwybod hefyd o brofiad personol yn sgil y cannoedd o sgyrsiau rydw i wedi eu cael â BBaCh y bydd llawer o'r busnesau rydym yn estyn allan atynt yn credu nad yw gwaith gyda'r sector gyhoeddus yn iawn iddyn nhw. Gall hynny fod am bob math o resymau. Weithiau, mater o bryderon am ba mor gymhleth yw'r broses dendro ei hun yw hi (ac fe drafodwn ni hynny'n nes ymlaen), ond yn amlach na pheidio, mae perchnogion busnesau'n teimlo'n syml eu bod nhw'n rhy fach i fod ag unrhyw obaith o ennill gwaith gyda'r sector gyhoeddus. Rwy'n deall y meddylfryd yna, ond maen nhw'n anghywir.

Er enghraifft, yn ddiweddar gofynnodd contractwr i ni ddod o hyd i siop frechdanau lleol i ddod â chinio allan i'r gweithwyr ar y safle er mwyn osgoi risg ychwanegol o ddal Covid. Felly, fe welwch chi fod cyfleoedd yn gallu codi o'r amgylchiadau mwyaf annisgwyl, hyd yn oed i'r BBaCh micro iawn.



Esiampl arall ar raddfa fwy yw Swansea Profesional Painters & Decorators, cwmni sy'n cael ei redeg gan ŵr ifanc o'r enw Jake, a ddaeth i gysylltiad â Llywodraeth Cymru'n wreiddiol trwy ei wasanaeth entrepreneuriaeth i bobl ifanc, **Syniadau Mawr Cymru**. Fe symudodd ymlaen wedyn i weithio gyda Busnes Cymru, lle'r anogodd un o'n cynghorwyr tendro Jake i gofrestru gyda GwerthwchIGymru a dechrau tendro am brosiectau addurno gyda'r sector gyhoeddus.

Mae Jake yn cydnabod nad oedd e byth wedi meddwl y gallai cwmni o faint ei un ef, ac a oedd yn gymharol newydd, ennill gwaith gyda'r sector gyhoeddus, ond mae e a'i dîm bellach yn cyflawni prosiectau addurno i'r sector gyhoeddus ar draws de Cymru. Mae ei stori'n destament i sut y gall y system weithio dros y 'dyn bach' os ydych chi'n eich gosod eich hun yn y sefyllfa iawn i lwyddo.

## Camganfyddiadau

Gan adeiladu ar yr uchod, mae'n sicr bod yna gamganfyddiad ymysg llawer o ddarpar-gyflenwyr fod caffael gyda'r sector gyhoeddus yn ymarfer cost uchel, â phroses sy'n ddigon i ddychryn rhywun, a lle mae'r unig gontractau sydd ar gael ar gyfer prosiectau mawr fel cynlluniau seilwaith anferth, neu waith technegol arbenigol iawn. Ond mae hynny ymhell o fod yn wir.

Er enghraifft, mae pobl yn credu bod y GIG ond yn chwilio am beiriannau pelydr X, gwelyau ysbyty, neu offer meddygol, ond nid fel yna mae hi, mae angen iddynt brynu popeth, drwy'r amser, hyd yn oed peniau a phapur. Ecosystem gyfan yw hi sydd angen ei chyflenwi, ac mae contractau ar gael ar gyfer popeth bron.

Yn yr un modd, mae ar awdurdodau lleol angen pethau fel cewynnau. Ac os ydych chi'n gyflenwr cewynnau ond na allant eich gweld ar GwerthwchIGymru, gallent fynd ati i brynu trwy Amazon. Stori wir yw hon, ac mae'n symptomataidd o'r diffyg difrifol o gyflenwyr sydd yna o fewn cadwyni cyflenwi'r sector gyhoeddus.

Felly, os ydych chi'n ddarpar-gyflenwr, ac mae'r mwyafrif helaeth o fusnesau yn ddarpar-gyflenwyr, byddwn yn eich annog yn daer i gysylltu â Busnes Cymru, a fydd yn eich cynorthwyo i gofrestru gyda GwerthwchIGymru. Gall Busnes Cymru eich cynorthwyo i sicrhau bod eich proffil a'ch gosodiadau hysbysu'n eich gwneud chi'n weladwy i brynwyr, a bod cyfleoedd yn llifo i mewn i'ch blwch post. Am ragor o syniadau, byddwn yn argymell gwrando ar y **podlediad bendigedig yma lle mae'r GiG yn disgrifio manteision cofrestru, a BBaCh yn rhannu eu profiadau o ennill gwerth miliynau o bunnoedd o fusnes**.

## Rôl CCC wrth ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol

Wrth i Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CCC) ddod yn fwyfwy pwysig wrth wneud penderfyniadau am gadwyni cyflenwi ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat, mae busnesau a sefydliadau'n gosod mwy o bwyslais o lawer nag erioed o'r blaen ar brynu'n lleol er mwyn lleihau allyriannau carbon a hybu economïau lleol (gan gefnogi'r Economi Sylfaenol).

Y gwasanaethau a'r cynhyrchion o fewn yr economi sylfaenol sy'n darparu'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol hynny y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt, ac sy'n ein cadw ni'n ddiogel, yn gadarn ac yn wâr. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth ac adwerthwyr y stryd fawr oll yn esiamplau o'r economi sylfaenol.

Mae'r dull yma o weithio'n hanfodol er mwyn bodloni'r amcanion CCC sydd wedi cael eu hailwampio mewn blynyddoedd diweddar diolch i'r amcanion llym o ran Sero Net, a mentrau Economi Sylfaenol a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

Mae dyletswydd ar y sector gyhoeddus i arwain drwy esiampl yn hyn o beth, ac er mwyn i Gymru gyflawni ein haddewid o ran allyriannau carbon – sef cyflawni Sero Net erbyn 2050 – rhaid i'r sector gyhoeddus brynu'n agosach at adref lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae hynny'n golygu y bydd angen miloedd o gofrestriadau newydd gyda Busnes Cymru a GwerthwchIGymru fel bod cyflenwyr lleol yn fwy gweladwy o lawer ar y farchnad er mwyn diwallu'r galw gan brynwyr sydd ar dân i gyflawni eu targedau CCC a Sero Net.



## GwerthwchIGymru a Quick Quotes

Rydw i wedi sôn am **GwerthwchIGymru** drosodd a thro yn y darn yma, ac mae rheswm da am hynny. Hi yw'r allwedd i ddatgloi arian y sector gyhoeddus a allai fod yn gatalydd i drawsnewid eich busnes, gyrru twf, neu'n syml sicrhau taliadau cyson a diogel am waith a gyflawnir, yn wahanol i'r sector preifat lle mae anfonebau'n aml yn aros heb eu talu ac yn ansicr am gyfnodau hir. Bydd hyn oll yn darparu ffrwd ychwanegol o incwm dibynadwy a hirdymor ar gyfer eich busnes.

Lle gwych i ddechrau gyda GwerthwchIGymru, neu i wella eich profiad tendro a'ch cyfraddau llwyddo, yw mynychu ein **Gweithdai Sut i Dendro**, sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor am y ffordd orau o ddefnyddio platfform GwerthwchIGymru, yn ogystal â Quick Quotes – porth pwysig GwerthwchIGymru ar gyfer cyfleoedd llai.

Cyfleuster cynhyrchu dyfynbrisiau o fewn GwerthwchIGymru yw Quick Quotes, ac mae'n caniatáu i brynwyr o'r sector gyhoeddus gael dyfynbrisiau cystadleuol am ofynion contractau gwerth is (llai na £25k). Gellir gwahodd tri chwmni i roi dyfynbris yn breifat gan ddefnyddio'r mecanwaith yma (noder: mae pethau ychydig bach yn wahanol i'r sector adeiladu - lle gall contractau am lai nag £1.4 miliwn ddefnyddio Quick Quotes).

Mae hi'n system dda am sawl reswm, o ran ei bod hi'n llai beichus o lawer i bawb – ond yn arbennig i'r cyflenwr am nad oes angen paratoi tendr helaeth, ac mae yna lai o gystadleuaeth o lawer – fel arfer dim ond dau gwmni arall fydd yn cystadlu â chi, sy'n ei gwneud hi'n haws ennill gwaith gyda'r sector gyhoeddus.

Mae hi'n ffordd i lawer o fusnesau gael eu troed yn y drws hefyd. Yn gam tuag at y tendrau mwy yna. Dyma'r fath o hwb i hyder sydd ei angen ar lawer o BBaCh wrth fentro i ddyfroedd dyfnion caffael gyda'r sector gyhoeddus am y tro cyntaf.

Dydw i erioed wedi gweld cymaint o awydd a dymuniad o fewn y sector gyhoeddus i ddefnyddio gwasanaethau sefydliadau a busnesau lleol ag y gwelaf i nawr. Ac mae hynny'n hollol briodol, rhaid i bawb chwarae eu rhan wrth gynnal eu heconomïau rhanbarthol a chyflawni amcanion Net Sero.

Ond mae angen amrywiaeth eang o opsiynau prynu o fewn y fframweithiau caffael sydd ar gael iddynt er mwyn cyflawni hyn.

Felly, os nad ydych chi wedi cofrestru ar GwerthwchIGymru eto, ystyriwch y ffaith fod gan Lywodraeth Cymru gyllideb o ychydig dros £24bn yn 2022. Rwy'n dychmygu y byddai hynny'n gymorth mawr i linell isaf pob un BBaCh sydd yna. A chofiwch - os nad ydych chi'n weladwy i brynwyr, fyddan nhw ddim yn gwybod pwy ydych chi, ymhle ydych chi, na beth rydych chi'n ei wneud. Ewch amdani nawr!

***I gael rhagor o wybodaeth a chymorth i helpu eich busnes i ddarganfod cyfleoedd newydd yn y gadwyn gyflenwi, ac i siarad â chynghorydd arbenigol, cysylltwch â Busnes Cymru.***

***Ffoniwch 03000 6 03000 neu ewch i www.businesswales.gov.wales/cy***

***Gwyliwch ein Sesiynau Arbenigol i ddysgu gan bobl o'r diwydiant ei hun a chael gwell dealltwriaeth am sut y gall eich busnes ddod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru ac elwa ar hynny. Mae'r holl sesiynau ar gael nawr i'w gwylio ar lein.***

**Gwyliwch y sesiwn**

Busnes Cymru | Business Wales
sesiynau arbenigol expert sessions
Cynadleddau Cadwyni Cyflenwi - Supply Chain Summits



# Astudiaeth achos
# Swansea Professional Painters

## Contractau'r sector cyhoeddus yn dod â lliw llwyddiant i gwmni peintio o Abertawe.

**Sefydlodd Jake Burley Swansea Professional Painters Ltd, busnes contractio sy'n arbenigo yn y sector cyhoeddus, yn 2019. .**

Heddiw, mae gan y busnes brofiad llwyddiannus o gwblhau pob math o brosiectau peintio ac addurno ar gyfer cleientiaid yn y sectorau masnachol, diwydiannol a chyhoeddus. Ond nes i Jake ddod i gysylltiad â Busnes Cymru yn 2020, roedd wedi bod yn canolbwyntio'n llwyr ar brosiectau addurno bach domestig, gan gredu bod contractau'r sector cyhoeddus y tu hwnt i'w afael.

Y cymorth cyntaf gafodd Jake oedd gan Syniadau Mawr Cymru, gwasanaeth Busnes Cymru i bobl rhwng 5 a 25 oed sydd am ddatblygu syniad busnes.
Dechreuodd y tîm yn Syniadau Mawr Cymru trwy helpu Jake i ddatblygu cynllun busnes effeithiol. Rhoddodd eu harweiniad nhw gyfle i'r entrepreneur ifanc glustnodi a gweithredu systemau a fyddai'n caniatáu iddo ehangu ei gwmni.

Cysylltodd Busnes Cymru Jake ag ymgynghorydd â phrofiad uniongyrchol o ddarparu gwasanaethau ar gyfer cleientiaid o'r sector cyhoeddus. Agorodd y wybodaeth a gafodd o'r cymorth yna lygaid Jake i'r potensial go iawn sydd yna i BBaCh ddiogelu contractau gydag awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

Fel y mae Jake yn esbonio: *"Mae'r ddealltwriaeth yna'n rhywbeth na fyddwn i byth wedi gallu ei chael heb gymorth Busnes Cymru. Am nad oeddwn i'n gwybod bod y cymorth ar gael o'r cychwyn, ar y dechrau cefais drafferth i gael y busnes yn gweithio yn y ffordd roedd angen iddo fe weithio. Fe ddysgais i bethau'r ffordd galed. Ond ar ôl cael y cymorth yna gan Fusnes Cymru, fe lwyddais i dyfu i'r cyfeiriad iawn a symleiddio'r broses."*

Cynorthwyodd y cynghorydd tendro Jake i ffeindio'i ffordd o gwmpas platfform ar lein GwerthwchiGymru - sy'n cysylltu cyfleoedd i dendro am waith gyda'r sector cyhoeddus â chyflenwyr addas – gan ei dywys trwy'r broses o lunio proffil effeithiol ar gyfer ei fusnes a chynllunio'r derminoleg a ddefnyddir wrth gyflwyno tendrau.

Yn allweddol, bu cynghorydd Jake yn gallu dangos iddo sut i baratoi'r dyfynbris ei hun, gan ddadansoddi pob cam yn y broses dendro a'r system sgorio. Gyda'r hyfforddiant yna, bu modd iddo weld sut i drefnu dyfynbris



Cliciwch yma i wylio'r Fideo Astudiaeth Achos



cychwynnol am gontract gyda'r sector cyhoeddus, a bu'r tendr yn llwyddiannus yn y pen draw.

Diolch i lwyddiannau parhaus, erbyn hyn mae Swansea Professional Painters yn canolbwyntio'n llwyr ar gontractau paentio ac addurno sylweddol ar gyfer y sector cyhoeddus, yn ogystal â chleientiaid yn y sectorau diwydiannol a masnachol. Mae ei wasanaethau'n cwmpasu amrywiaeth o ddisgyblaethau, gan gynnwys caenu amrywiaeth o waith metel, pob math o waith rendro allanol ac addurno mewnol, yn ogystal â gwaith chynnal a chadw ac adfer ar gartrefi gofal, ysbytai a llawer mwy.

Parhaodd Jake: *"Cyn cael holl gymorth Busnes Cymru, roeddwn i'n meddwl taw'r dyfodol i fy nghwmni fyddai twf organig araf trwy brosiectau domestig. Ond, gyda llawer o gymorth gan fy nghynghorydd busnes a'm cynghorydd tendro, rydw i wedi sylweddoli bod rhaid i mi ganolbwyntio ar y sector cyhoeddus. Rydw  i wedi ymrwymo o hyd i dyfu'n raddol, ond mae'r ffaith fy mod i'n cychwyn gwaith gyda'r sector cyhoeddus yn golygu fy mod eisoes wedi gallu dyblu maint fy nghwmni trwy waith cyson a thaliadau sicr."*

Yn ystod chwarter cyntaf 2022, mae'r cwmni wedi cychwyn ar ei brosiect mwyaf uchelgeisiol a thechnegol hyd yn hyn. Trwy gontract gyda Chyngor Bro Morgannwg, mae tîm Jake wedi bod yn cydweithio ag artist lleol i adnewyddu Pont Gladstone yn y Barri, yn ogystal â sawl safle cyhoeddus arall yn ardal yr awdurdod lleol.

Bydd cynlluniau Jake ar gyfer y dyfodol yn gweld ei gwmni'n parhau i dyfu'n raddol er mwyn cynnal sicrwydd o ran ansawdd. Strategaeth yw hon sy'n canolbwyntio ar fod y gorau, nid y mwyaf, yn ei faes. A, gyda chefnogaeth Busnes Cymru, mae'n credu ei bod hi'n ddull o weithredu a allai helpu llawer o ddarpar-entrepreneuriaid i lwyddo mewn unrhyw sector.

Wrth feddwl am y cymorth y mae e wedi ei gael gan Fusnes Cymru, dywedodd Jake: *"Mae ein twf dros y 12 mis diwethaf wedi bod mor anhygoel, ac rwy'n browd iawn o ble'r ydyn ni wedi cyrraedd. Byddwn i wir yn argymell Syniadau Mawr a Busnes Cymru i unrhyw un sy'n dechrau busnes, neu hyd yn oed os oes cwmni ganddynt eisoes, am ei bod hi wir yn eich galluogi chi i ddeall sut y dylai busnes redeg. Efallai bod gennych chi'ch systemau eich hun yn barod, ond mae yna gymaint yn fwy i'w ddysgu, a chymaint yn fwy i'w wybod."*

***Gwyliwch ein Sesiynau Arbenigol i ddysgu gan bobl o'r diwydiant ei hun a chael gwell dealltwriaeth am sut y gall eich busnes ddod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru ac elwa ar hynny. Mae'r holl sesiynau ar gael i'w gwylio ar lein nawr.***

***I gael rhagor o wybodaeth a chymorth i helpu eich busnes i ddarganfod cyfleoedd newydd yn y gadwyn gyflenwi, ac i siarad â chynghorydd arbenigol, cysylltwch â Busnes Cymru.***

***Ffoniwch 03000 6 03000 neu ewch i www.businesswales.gov.wales/cy***

Gwyliwch y sesiwn



# Astudiaeth achos
# WR Bishop

## Busnes teuluol sy'n arbenigo mewn cyflenwi cynnyrch ffres, cynnyrch llaeth a bwydydd ar gyfer y diwydiant arlwyaeth, awdurdodau lleol a'r GIG yw WR Bishop.

**Dros y 60 mlynedd diwethaf, mae'r busnes wedi tyfu i gyflenwi dros 2000 o lwythi'r wythnos, gan gynnwys cyflenwi ysgolion mewn chwe awdurdod lleol, chwe bwrdd iechyd y GIG ar draws de Cymru, yn ogystal â chwmnïau arlwyo a bwytai.**

WR Erbyn hyn, mae WR Bishop yn cyflogi 40 o bobl ar draws ei ddau safle ym Mhont-y-clun a Chaerdydd, ac mae gan dwf parhaus y cwmni gysylltiadau agos â'i lwyddiant wrth ddiogelu a chadw contractau gyda'r sector cyhoeddus.

Mae Chris Bishop o WR Bishop yn esbonio: *"Trwy gynnal safonau uchel ein cynnyrch ffres a chysondeb danfon ein llwythi, rydyn ni wedi dod yn gyflenwr y mae sefydliadau ar draws de Cymru'n ymddiried ynddo.*

*"Mae'r cwsmeriaid pwysig yma o'r sector cyhoeddus yn hanfodol i'n cynlluniau gwerthu am fod y contractau'n golygu y gallwn gynllunio ar gyfer pethau fel cerbydau, offer a diogelwch staff. Gallwn gynllunio ar gyfer lefelau sicr o fusnes hefyd sy'n ein galluogi i negodi prisiau cystadleuol gyda'n cyflenwyr, ac mae hyn, yn ei dro, yn ein helpu ni i gystadlu ar gyfer contractau eraill rydyn ni am dendro ar eu cyfer."*




Yn 2021, symudodd y cwmni i stordy pwrpasol newydd sbon ger Pont-y-clun, a roddodd y capasiti iddo ehangu amrywiaeth ei gynnyrch a gweithredu'n fwy effeithlon.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r hafaliad yw'r cyfleusterau a'r gallu i gyflawni ag ansawdd i'r rhai sydd am fanteisio ar gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus. Beth bynnag fo galluoedd cwmnïau, er mwyn llwyddo yn y sector cyhoeddus, mae angen iddynt ddatblygu eu prosesau tendro.

Heddiw, mae'r holl gontractau sector cyhoeddus y mae WR Bishop yn tendro ar eu cyfer yn cael eu cyhoeddi'n ddigidol trwy'r platfform GwerthwchiGymru, sy'n cysylltu cyfleoedd i dendro â chyflenwyr addas.

Fel pob cwmni arall, er mwyn ymateb i hysbysiadau tendro dyddiol, yn gyntaf roedd angen i WR Bishop gofrestru ar GwerthwchiGymru a llunio proffil i'r cwmni. Roedd hynny'n cynnwys cysylltu ei gynnyrch â chodau cynnyrch GwerthwchiGymru, a phennu'r lleoliadau daearyddol y gall eu gwasanaethu.

Yn wreiddiol, trodd WR Bishop at Fusnes Cymru am gyngor a chymorth ar ennill achrediad cynaliadwyedd sydd bellach yn hanfodol i gyflwyniadau tendr a'u gallu i gynnal eu contractau cyfredol.

Wedyn cyflwynwyd y busnes i gynghorwyr cynaliadwyedd, a aeth i ymweld â'r safleoedd er mwyn rhannu syniadau, a gynorthwyodd WR Bishop i fynd ati i ennill safon amgylcheddol y Ddraig Werdd. Daeth yr achrediad yma'n hanfodol i ennill tendr am gontract, ac mae'n parhau i gefnogi twf y busnes teuluol at y dyfodol.

Parhaodd Mr Bishop: *"Mae hi'n hanfodol bwysig fod cwmnïau sydd â diddordeb yn deall sut i fynd ati i dendro am gontractau caffael yn y sector cyhoeddus, a'r gofynion ar gyfer gwneud hynny.*

*"Rydyn ni wedi bod yn ymwybodol o'r cymorth busnes a ariennir yn llwyr ers ychydig flynyddoedd bellach, ac mae hyn o fantais aruthrol i fusnesau Cymreig wrth eu galluogi i ddod o hyd i gontractau Caffael Cenedlaethol Cymru.*

*"Rydyn ni wedi cael cymorth bendigedig, yn arbennig gan ein cynghorwyr tendro, ac mae hyn wedi helpu i'n llywio ni trwy'r pyrth e-dendro, sy'n gallu codi ofn ar rywun ar y cychwyn. Mae'r cymorth yna'n dal i fod yn fuddiol i'n hymarferion tendro heddiw.*

**"Byddwn yn argymell yn wresog bod unrhyw gwmni Cymreig sydd am fod yn rhan o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn troi at Fusnes Cymru, hyd yn oed os ydyn nhw'n teimlo nad ydynt mewn sefyllfa i wneud hynny ar y funud.**

*"Rwy'n siŵr y bydd llawer o bobl yn ffeindio, pan fo arbenigwyr Busnes Cymru'n dangos beth sy'n bosibl, y byddant yn darganfod bod mwy o gyfleoedd ar gael nag y gallent fod wedi dychmygu."*




**Cliciwch yma i wylio'r Fideo Astudiaeth Achos**

***Gwyliwch ein Sesiynau Arbenigol i ddysgu gan bobl o'r diwydiant ei hun a chael gwell dealltwriaeth am sut y gall eich busnes ddod yn rhan o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru ac elwa ar hynny. Mae'r holl sesiynau ar gael i'w gwylio ar lein nawr.***

***I gael rhagor o wybodaeth a chymorth i helpu eich busnes i ddarganfod cyfleoedd newydd yn y gadwyn gyflenwi, ac i siarad â chynghorydd arbenigol, cysylltwch â Busnes Cymru.***

***Ffoniwch 03000 6 03000 neu ewch i www.businesswales.gov.wales/cy***

**Gwyliwch y sesiwn**

# Dyma ambell i bwynt allweddol pellach a chrynodeb gyda linciau a deunyddiau darllen pellach:

I gofrestru gyda Busnes Cymru ffoniwch **03000 6 03000** neu ewch i
**www.businesswales.gov.wales/cy**

Gellir dod o hyd i holl weithdai Busnes Cymru a Digwyddiadau Ymgysylltu â Phrynwyr yma:
**wales.business-events.org.uk/cy**

Chwiliwch am cyfleuoedd cytundeb ar GwerthwchiGymru:
**www.gwerthwchigymru.llyw.cymru**

Gall manylion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru eu ddarganfod yma:
**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**

Yr Economi Sylfaenol:
**Yr Economi Sylfaenol | Busnes Cymru (gov.wales)**

**Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi:**
**Cyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi: cod ymarfer | Llywodraeth Cymru (gov.wales)**

Cymalau gwerth cymdeithasol Llywodraeth Cymru:
**WPPN Cymalau gwerth cymdeithasol | Llywodraeth Cymru (gov.wales)**



